

Mae rhai creaduriaid môr yn defnyddio plastigion sy'n arnofio neu wastraff arall i deithio o amgylch y byd. Dyma rai yr ydym wedi dod o hyd iddynt ar lannau'r DU. Os wnewch chi edrych yn ofalus gallwch chi weld rhai o'r rhain hefyd. Rhowch wybod i ni ar Twitter @CardiffCurator.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau natur neu gysylltwch â gwyddonwyr ein hamgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws



Cranc Columbus
Planes minutus

Dim ond yn cael ei ganfod ar wrthrychau sy'n arnofio, heb gartref parhaol ar y tir, mae'n bosib y cafodd y cranc bychan hwn ei gofnodi gan Christopher Columbus ar chwyn oedd yn arnofio yn y Môr Sargaso (gogledd-orllewin Môr yr Iwerydd). Darganfuwyd sbesimen ein hamgueddfa ymysg gwyran ar het galed a olchodd i'r lan ar draeth Ogwr!

Mae'r crancod hyn yn fach, dim mwy na 1–2cm o led ar draws y corff, yn amrywio o ran lliw, gyda llygaid ymhell ar wahân; cragen allanol llyfn (argragen) gyda 1–2 pigyn fel dannedd ar yr mylon.



Gwyran Darwin
Austrominius modestus

Mae'r gwyran hwn, wedi ei ddisgrifio am y tro cyntaf gan Charles Darwin ym 1854, yn frodorol i Awstralia. Cafodd ei gyflwyno i lannau Prydain yn yr 1940au, mwy na thebyg drwy lynu at gyrff llongau ac mae bellach yn gyffredin yma. Mae'n lledaenu'n hawdd ar draws y byd gan lynu wrth wrthrychau sy'n arnofio.

Dim ond 4 plât sydd ar y corff allanol, caled (o gymharu â 6 yn y rhan fwyaf o wyrannau eraill y DU) a rhanbarth canolog gyda phedwar plât sy'n gallu agor i alluogi'r anifail i fwydo. Hyd at 10mm mewn diamedr.



Isopod
Idotea metallica

Grŵp o gramenogion bychan yw isopodau sy'n cynnwys pryfed lludw. Nid oes gan y crwydryn parhaol hwn gartref brodorol ond yn hytrach teithia ar hyd a lled y byd ar wrthrychau sy'n arnofio fel plastigion neu algâu ac o bryd i'w gilydd bydd yn canfod ei ffordd at lannau Prydain.

Hyd at 3cm o hyd, yn llwyd neu'n frown pan mae'n fyw; llinell grommenog, cyflawn ar hyd rhan uchaf'r corff tu ôl i'r llygaid mawr, amlwg (yn ddu pan mae'n fyw); siâp syth-ochrog i'r cefn, heb fin bron â bod.



Gwyran
Lepas anatifera

Yn aml yn cael ei ganfod wedi glynu mewn niferoedd mawr at wrthrychau sy'n arnofio, megis yr het galed a olchodd i'r lan ar draeth Cymreig. Ar un adeg roedd pobl yn credu fod gwyddau'r môr yn datblygu o'r rhain, ac o fan hyn y daeth yr enw Saesneg, Goose Barnacle.

Yn cael ei wahaniaethu oddi wrth wyrannau eraill yn sgil y pum plât mawr, gwyn, llyfn ar y 'pen' gyda dim ond bwch cul rhyngddynt. Gall y Cambwl (y rhan gragenog) gyrraedd hyd o 5–7cm.



Tiwblyngyr drumiog
Spirobranchus spp.

Yn glynu fel arfer at unrhyw arwyneb caled, mae'r mwydod hyn yn gallu setlo'n hawdd ar weddillion sy'n arnofio cyn cael eu cludo ar draws y byd. Mae 2 rywogaeth sy'n frodorol i'r DU ond canfuwyd rhywogaeth Americanaidd oedd wedi glynu at lanast wedi storm, ar y lan yng Nghernyw yn 2016.

Tiwb crwm, gwyn, caled, â hyd o 2–3cm, er bod y mwydyn ei hunan lawer yn llai, gyda chribyn (cêl) sy'n rhedeg drwy'r canol.